

# A YW'CH TEULU CHI'N GYMWYS I GAEL Y CYNNIG GOFAL PLANT?



**DDIM YN GYMWYS AR GYFER Y CYNNIG GOFAL PLANT**

**NAC YDY**

**A yw'ch plentyn yn gymwys?**  
A yw'ch plentyn o fewn yr ystod oedran 3 i 4 oed ac a ydych chi'n byw yng Nghymru? Mae'n bosibl bod eich plentyn yn gallu cael gofal plant y tu allan i Gymru, ond rhaid iddo/iddi fod yn byw yng Nghymru.

**YDY/YDW**

**A ydych chi'n gallu hawlio?**  
Rhaid eich bod yn byw gyda'r plentyn cymwys ac yn gyfrifol am y plentyn hwnnw neu'n bartner i berson sy'n gyfrifol am y plentyn. Mae hyn yn cynnwys rhieni biolegol, gwarcheidwaid cyfreithiol, llysrieni a rhieni sy'n cyd-fyw yn hirdymor, a hefyd yn cynnwys teuluoedd un rhiant a theuluoedd dau riant. Ydy hyn yn berthnasol i chi?

**NAC YDY**

**DDIM YN GYMWYS AR GYFER Y CYNNIG GOFAL PLANT**

**TEULU DAU RIANT**  
**A yw'r ddau ohonoch chi'n gweithio?**  
Mae'r Cynnig ar gael i rieni sy'n gyflogedig ac yn hunangyflogedig.  
Ystyr gweithio yw rhiant sy'n gweithio ac yn ennill isafswm sy'n cyfateb i 16 awr yr wythnos ar yr isafswm cyflog cenedlaethol, y cyflog byw cenedlaethol neu'r isafswm cyflog prentisiaeth.  
Bydd angen i chi allu darparu tystiolaeth o'ch enillion, er enghraifft slipiau cyflog.

**YDY**

**GALLWCH WNEUD CAIS TRWY AWDURDOD LLEOL (ALI)**  
Mae pob cais yn cael ei brosesu gan ALI, a gallwch ddarganfod sut i wneud cais trwy eich Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Lleol.  
[https://llyw.cymru/dod-o-hyd-ich-gwasanaeth-gwybodaeth-i-deuluoedd-lleol?\\_ga=2.182959142.1232533625.1575987792-597879737.1570630543](https://llyw.cymru/dod-o-hyd-ich-gwasanaeth-gwybodaeth-i-deuluoedd-lleol?_ga=2.182959142.1232533625.1575987792-597879737.1570630543)  
Os yn gymwys, gallai eich plentyn dderbyn elfen gofal plant y Cynnig o'r tymor ar ôl ei drydydd pen-blwydd, nes ei fod yn gymwys i dderbyn lle addysg llawn amser (yr union ddyddiadau i'w penderfynu gan yr ALI).  
Mae'r oriau hyn o ofal plant ar gael i rieni cymwys ar ben yr oriau o addysg gynnar a ddarperir eisoes gan yr ALI hyd at gyfanswm o 30 awr o addysg gynnar a gofal plant wedi'u cyfuno bob wythnos yn ystod tymor yr ysgol. Er enghraifft, os oes gan eich plentyn hawl i 12.5 o oriau o addysg gynnar yr wythnos, gallai hefyd fod â hawl i 17.5 awr o ofal plant yr wythnos os yw eich teulu yn gymwys. Mae'r Cynnig yn cynnwys hawliau gwyliau hefyd. Dysgwch fwy oddi wrth eich ALI.

**YDY**

**TEULU UN RHIANT**  
**Ydych chi'n gweithio?**  
Mae'r Cynnig ar gael i rieni sy'n gyflogedig ac yn hunangyflogedig.  
Ystyr gweithio yw rhiant sy'n gweithio ac yn ennill isafswm sy'n cyfateb i 16 awr yr wythnos ar yr isafswm cyflog cenedlaethol, y cyflog byw cenedlaethol neu'r isafswm cyflog prentisiaeth.  
Bydd angen i chi allu darparu tystiolaeth o'ch enillion, er enghraifft slipiau cyflog.

**NAC YDW**

**DDIM YN GYMWYS AR GYFER Y CYNNIG GOFAL PLANT**

**YDW**

A ydych chi'n ennill £100,000 (incwm gros) neu fwy bob blwyddyn?

**YDW**

**DDIM YN GYMWYS AR GYFER Y CYNNIG GOFAL PLANT**

**NAC YDW**

**MAE'CH TEULU YN GYMWYS I GAEL Y CYNNIG, AR YR AMOD BOD YR AWDURDOD LLEOL YN FODLON Â'R DYSTIOLAETH A DDARPERIR**

**MAE'CH TEULU YN GYMWYS I GAEL Y CYNNIG, AR YR AMOD BOD YR AWDURDOD LLEOL YN FODLON Â'R DYSTIOLAETH A DDARPERIR**

**NA**

A yw'r naill neu'r llall ohonoch yn ennill £100,000 (incwm gros) neu fwy bob blwyddyn? Mae modd ennill dros £ 100k ar y cyd, ond os bydd un rhiant yn ennill dros £100k, ni fyddwch yn gymwys.

**YDYN**

**DDIM YN GYMWYS AR GYFER Y CYNNIG GOFAL PLANT**

**NA**

**A yw un rhiant yn gweithio a'r llall yn cael un o'r budd-daliadau isod?**

- Budd-dal Analluogrwydd
- Lwfans Gofalwr
- Lwfans Anabledl Difrifol
- Budd-dal Analluogrwydd Hirdymor
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
- Credydau Yswiriant Gwladol ar sail analluedd i weithio neu allu cyfyngedig i weithio

Bydd raid i chi ddarparu tystiolaeth os ydych yn derbyn y budd-daliadau uchod

**YDY**

**MAE'CH TEULU YN GYMWYS I GAEL Y CYNNIG, AR YR AMOD BOD YR AWDURDOD LLEOL YN FODLON Â'R DYSTIOLAETH A DDARPERIR**

**NA**

**DDIM YN GYMWYS AR GYFER Y CYNNIG GOFAL PLANT**